

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Dyddiad:	Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2002
Amser:	2.00 to 5.00 pm
Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

ASiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Adolygiad ac Edrych Ymlaen**1. Cyflwyniad**

Gwnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gyfraniad gwirioneddol at greu Cymru well yn 2001/02. Enghreifftiau da o hyn yw canlyniadau rhagorol ei gwaith gorfodi ym maes rheoli gwastraff a'i hymateb i argyfyngau yn sgil llifogydd. Mae'r her sy'n ein hwynebu yn gyffrous ac ymestynnol, ac eto rydym eisoes yn gweld manteision gweithio gyda'n gilydd i greu a datblygu cyfleoedd newydd.

2. Cyflawniadau allweddol 2001 - 02

Blwyddyn anodd oedd hon, pan lwyddwyd i weithredu rhaglen ymestynnol o waith y tarfwyd arni'n sylweddol gan Glwy'r Traed a'r Genau. Pan oedd yr argyfwng yn ei anterth, cyfnod a barodd am sawl mis, roedd tua 50 o'n staff yn gweithio i'w reoli, gan gefnogi ymdrechion y Cynulliad. Rhoddodd AAC dros 100 awdurdodiad o dan y Rheoliadau Dwr Daear i losgi/claddu anifeiliaid ac ymgymerodd â 107 asesiad safle yng Nghymru (a hefyd 83 yn Lloegr).

Mae ymgyrch a chymorth ariannol y Cynulliad i hybu cynlluniau rheoli gwastraff wedi cael eu had-dalu gyda llwyddiant sylweddol. Rydym wedi gwneud arolygiadau dirybudd o safleoedd gwastraff y tu allan i oriau swyddfa, sydd wedi arwain at weithredu uniongyrchol yn erbyn cwmnïau nad oeddynt yn cydymffurfio â'u trwyddedau. Mae ein hymgyrch yn erbyn pobl sy'n dadlwytho sbwriel yn

anghyfreithlon wedi arwain at 90 erlyniad, yn fwy na'r un rhanbarth yn Lloegr. Roedd cyfanswm y dirwyon a osodwyd am droseddau'n ymwneud â gwastraff a gwastraff pacio yn £213,545, a dyfarnwyd £77,842 mewn costau. Darganfuwyd 40 cludwr gwastraff a oedd heb gofrestru yn ystod archwiliadau ar ochr y ffordd, ar y cyd ag ymgyrchoedd yr heddlu yn aml. Sicrhawyd hefyd fod y rheiny a honnai eu bod wedi'u heithrio o'r angen i godi trwydded yn gweithredu'n gyfreithlon drwy archwilio 355 safle o'r fath. Yn ystod 2001 hefyd, bu i 60% o ddwrfeydd ymdrochi gydymffurfio gyda'r Safon Canllaw Ewropeaidd. Roedd hwn yn lwyddiant sylweddol ac yn record newydd.

3. Gweledigaeth a phrif sialensiau am y tair blynedd nesaf

Lansiwyd ein gweledigaeth y llynedd. Mae hon yn disgrifio yr hyn y gallwn ni, ar y cyd ag eraill, ei gyflawni er lles yr amgylchedd. Eleni, yn dilyn ymgyngori, byddwn yn lansio Strategaeth Gorfforaethol. Argymhellodd yr adroddiad pum-mlyneddol o'r Asiantaeth (FMPR) y dylid diwygio ei Datganiad Rheoli ac Arweiniad (Adran 4) Statudol. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn cynnig cyd-destun ar gyfer y strategaeth.

Bydd yr Arweiniad Adran 4 yn cynnwys amcanion strategol ar gyfer yr Asiantaeth am y pum mlynedd nesaf. Er mwyn cyflawni'r rhain, bwriadwn foderneiddio ein swyddogaeth fel rheoleiddiwr, a gwella ein swyddogaethau fel ymgynghorwyr. Rhaid i bobl weld ein bod ni'n gweithredu dros yr amgylchedd yng nghyd-destun datblygiad cynaliadwy.

I fod yn llwyddiannus, rhaid i ni:

- ddefnyddio ein pwerau i symbylu gweithredu, gan weithio'n agos â budd-ddeiliaid a phartneriaid;
- gwella ein gwybodaeth amgylcheddol ar bob lefel, ac ar gyfer pob cynulleidfa;
- darganfod ffyrdd gwell, cyflymach, clyfrach o weithio.

Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi dogfen ar wahân ar Arweiniad Adran 4 i'r Asiantaeth yng Nghymru i ategu honno a gyhoeddwyd gan DEFRA ar gyfer Lloegr.

Bydd Cynllun Corfforaethol Cymru ar gyfer 2003/04 yn cael ei gyhoeddi tua diwedd 2002, ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol yr Asiantaeth ar gyfer Lloegr a Chymru. Rhai o'r sialensiau allweddol fydd gweithio mewn ffyrdd newydd i:

- barhau i wneud gwaith creiddiol hanfodol o fewn ein cyllid man-cychwyn;
- paratoi ar gyfer, a gweithredu Cyfarwyddebau newydd y GE (e.e. Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr, Cyfarwyddeb Tirlenwi, Gwastraff Amaethyddol, Mwyngloddfeydd a Chwareli);
- parhau i ymateb i Strategaeth Gwastraff Cymru;
- gwella'r gwasanaeth rhybuddio am lifogydd ac amddiffynfeydd llifogydd;
- gwella pysgodfeydd eogiaid sy'n dirywio a thrwy hynny yr economi wledig;
- cynhyrchu a gweithredu strategaethau rheoli tynnu dwr o ddalgylchoedd.

4. Gwella gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonedd

Canolbwyntiodd yr FMPR ar feysydd penodol y gellid eu gwella. Nodwyd y byddai trefniadaeth, rheoleiddio, codi tâl ac amddiffyn rhag llifogydd o bwys strategol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. O ganlyniad, mae'r Asiantaeth yn ailstrwythuro ar hyn o bryd i sicrhau y gall gynnig gwasanaethau rheoleiddiol mwy cyson ac effeithlon. Amddiffyn rhag llifogydd yw un o flaenoriaethau pennaf yr Asiantaeth o hyd.

Edrychodd yr adolygiad hefyd ar berfformiad yr Asiantaeth mewn perthynas ag enillion effeithlonedd. Mae'r argymhellion wedi peri i'r Asiantaeth gychwyn rhaglen dreigl o adolygiadau effeithlonedd strategol wedi'u seilio ar egwyddorion Gwasanaethau o Well Safon. Er mwyn sicrhau enillion effeithlonedd mwy byth, rydym wedi dweud wrth ein noddwyr y bydd angen buddsoddiad sylweddol yn ein systemau ac is-strwythur gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth. Gan fod costau staff yn cyfrif am gyfran sylweddol iawn o wariant yr Asiantaeth, bydd helpu'r staff i fod yn fwy effeithlon yn y modd hwn yn gam hanfodol ymlaen. Rydym hefyd yn rhagbrofi trefniadau gweithio hyblyg, ac mae systemau newydd megis rheolaeth dogfennau electronig a GIS yn cynnig cyfleoedd newydd i arbed arian ac adnoddau naturiol, ac i helpu ein cwsmeriaid. Rydym wedi symud i adeiladau newydd mewn dau le ac wedi manteisio ar y cyfle i weithredu'r arfer amgylcheddol gorau ac, yn achos Llandarcy, i roi hwb i adfywiad yr ardal leol.

5. Gweithio ar y cyd yn awr ac yn y dyfodol

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ar bob lefel o weithgaredd busnes: o helpu'r Cynulliad i ddatblygu polisiau newydd i weithio gydag awdurdodau lleol i ddal y sawl sy'n dadlwytho gwastraff yn anghyfreithlon. Mae cyrff â nod cyffredin yn gweithio

gyda'i gilydd ar gynlluniau megis y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd, tra bo Arena Network yn cynnig cyngor i fentrau bach a chanolig ar ein rhan. Rydym wedi datblygu cysylltiadau gwaith agos â staff ieuchyd proffesiynol mewn perthynas â'n gweithgareddau rheoleiddio, a byddwn yn gweithio gydag amryw o fudd-ddeiliaid o dan ein Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy, gan hybu ecotwristiaeth a chefnogi'r economi wledig.

6. Crynodeb Ariannol

Dangosir yn y tabl isod ein cynlluniau incwm a gwariant, wedi'u seilio ar y darpariaethau ac adnoddau cyfredol. Rhoddir y targedau cysylltiedig yng Nghynllun Corfforaethol Cymru 2002-03 sydd ar ein gwefan www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk.

TABL 1.	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
	Gwirion- eddol	Cyllideb	Cynllun- iedig	Amcan- gyfrif	Amcan- gyfrif
	£000	£000	£000	£000	£000
GWARIANT	22,600	23,742	24,896	25,155	25,420
Diogelu'r Amgylchedd	37,796	43,007	42,603	43,580	43,646
Rheoli Dwr ¹	60,396	66,749	67,499	68,735	69,066
Cyfanswm Gwariant					
INCWM	45,280	49,453	49,768	51,004	52,135
Ardollau, taliadau, incwm arall a throsglwyddiadau o gyfrifon	1,414	2,101	1,536	1,536	1,536
Grant cyfalaf y Cynulliad ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd ²	13,702	15,195	16,195	16,195	15,395
Cymorth grant y Cynulliad ³	60,396	66,749	67,499	68,735	69,066
Cyfanswm Incwm					

Nodiadau: 1. Mae gwariant ar reoli dwr yn cynnwys ffigurau ar gyfer Amddiffyn rhag Llifogydd o 2003/04 i 2005/06 yn gynhwysol wedi'u seilio ar amcangyfrifon sydd heb gael eu cyflwyno i Bwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol eto i'w cymeradwyo.

2. Mae incwm grant cyfalaf y Cynulliad yn 2002/03 ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd wedi'i seilio ar ofynion a nodwyd mewn rhagamcaniadau a gyflwynwyd i Bwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol ym mis Rhagfyr 2001. Nid yw'r £1m yn ychwanegol ar gyfer Amddiffyn rhag Llifogydd a gytunwyd yn ddiweddar gan y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn y ffigurau uchod.

3. Mae cymorth grant yn cynnwys £800k ar gyfer Pysgodfeydd Cynaliadwy sydd ar gael am dair blynedd o 2002/03. Nid yw incwm cymorth grant ar gyfer 2002/03 ymlaen yn cynnwys cyllid sydd ar gael i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gyfer adolygu'r caniatâd a roddwyd o dan Reoliadau Cynefinoedd 1994.

Daw 80% o'n hincwm o daliadau, ardollau a ffynonellau eraill, a'r 20% arall o gymorth grant. Mae cyfyngiadau ar incwm o godi tâl ynghyd â chymorth grant man-cychwyn sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn arwain at erydu lefelau o wasanaeth yn ein gwaith creiddiol. Ar gyfartaledd yn 2002/03 bu codiad o 2.5% mewn taliadau am wasanaethau gwastraff, ansawdd dwr a rheoleiddio diwydiant. Bwriadwn wario'r cymorth grant ychwanegol yn y cyllidebau arwyddol ar gyfer 2003/04 ar gefnogi gweithredu Strategaeth Gwastraff Cymru.

7. Cais am adnoddau ychwanegol

Bu'r Asiantaeth yn trafod â'i noddwyr ynghylch Adolygiad o Wariant 2002. Mae cais Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gyson â chais yr Asiantaeth i DEFRA.

Tabl 2	2003/04 (£m)	2004/05	2005/06
Systemau cyfrifiadurol ac is-strwythur	1.3	0.0	0.0
Amddiffyn rhag Llifogydd	3.2	1.2	0.9
Cyfarwydddebau'r GE	1.5	0.5	0.5

Yn ogystal, crynhoir ein cais am gynlluniau arbennig sy'n unigryw i Gymru yn y tabl isod.

Tabl 3	2003/04 (£m)	2004/05	2005/06

Strategaeth Gwastraff Cymru	0.5	1.0	1.5
Rhannu Gwybodaeth - Iechyd	0.1	0.0	0.0
Arweiniad Adran 4	0.2	0.0	0.0
Cysylltu â Chymunedau	0.1	0.1	0.1
Mordwyo ar Afon Gwy	0.05	0.0	0.0
CYFANSWM	0.95	1.1	1.6

Cyflwynir y ceisiadau a nodir uchod fel cynnydd flwyddyn ar flwyddyn (neu fel arall) ar y llinell sail, ac maent yn ychwanegol at y cyllidebau mynegol sy'n bodoli.

Alun Gee

Cyfarwyddwr Cymru Dros Dro 26 Mehefin 2002